Co19211- Ysgol Gynradd Draenen Pen-y-graig - Teithio Llesol

Disgrifiad o Gynnig y Cynllun

Llanisien: Ysgol Gynradd Draenen Pen-y-graig (Teithio Llesol i'r Ysgol) Heol Hir (CO19211)

Mae'r Cyngor yn rhoi gwybod i breswylwyr am gynlluniau i wneud newidiadau ar y briffordd ger Ysgol Gynradd Draenen Pen-y-graig. Bydd y newidiadau hyn yn gwella diogelwch i rieni a phlant sy'n cerdded, neu'n teithio ar sgwter neu feic i Ysgol Gynradd Draenen Pen-y-graig. Codwyd pryderon ynghylch cyflymder cerbydau a diogelwch cerddwyr ar Heol Hir. Rydym yn cynnig adeiladu Parth Diogelwch Ysgol fel rhan o'r cynllun hwn. Bydd hyn yn cynnwys adeiladu mesurau arafu traffig wrth nesáu at yr ysgol a fydd yn lleihau cyflymdra cerbydau ac yn gwella mynediad i gerddwyr.

Bydd y cynllun hwn yn cynnwys:

- Adeiladu croesfannau sebra dyrchafedig ar Heol Hir
- Cyflwyno cyfyngiadau parcio ychwanegol
- Addasiadau i gyffyrdd Ragnal Close a Cavendish Close a fydd yn cynnwys lleihau radiws y gyffordd a chyflwyno cyrbau isel a phalmentydd botymog.

Bydd y mesurau'n creu amgylchedd mwy diogel i gerddwyr, yn benodol ar gyfer defnyddwyr agored i niwed a disgyblion ysgol, a byddant yn gwella hygyrchedd at yr ysgol, y parc ac at wasanaethau bws.

Os hoffech chi wneud unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn, anfonwch e-bost atom erbyn 13/8/2021 drwy e-bost i ProjectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ysgrifennwch i Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW.

Bydd y sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried yn ofalus, ni ddarperir ymatebion unigol, ond eir i'r afael â'r holl faterion a godir a'u hychwanegu at yr adroddiad ymgynghori a fydd ar gael ar-lein, neu drwy gais, maes o law.

Rhagor o Wybodaeth am fesurau rheoli traffig

Nodweddion Arafu Traffig Mae'r term hwn yn cyfeirio at fesurau rheoli traffig ffisegol penodol sy'n gorfodi gyrwyr i leihau cyflymder eu cerbydau. Mae'r rhain yn cynnwys twmpathau ffordd, clustogau arafu, byrddau arafu, rhwystrau culhau'r ffordd, rhwystrau igam-ogam, pyrth, cylchfannau a nodweddion tebyg eraill.

Croesfan Sebra. Mae'r math hwn o groesfan yn addas i safleoedd lle mae lefelau cymedrol o gerddwyr a thraffig lle na chyfiawnheir croesfan pâl. Gallant wasanaethu cerddwyr yn well gan nad oes angen aros am amser penodol cyn cael croesi. Gellir eu cyfuno'n ddefnyddiol ar y cyd â **rhwystrau ymwthiol** sy'n gwella gweledededd i gerbydau a theithwyr eraill, yn lleihau pellteroedd croesi ac yn dangos bod cerddwyr yn bwriadu croesi'r ffordd.

Cyrbau Isel Dyma'r groesfan i gerddwyr symlaf, lle cedwir y gwahaniaeth lefel rhwng y droedffordd a'r ffordd y lleiaf posibl er mwyn cynorthwyo defnyddwyr cadeiriau olwyn, pramiau a rhai eraill sydd â nam ar y symudedd. Mae ganddynt balmentydd botymog i rybuddio defnyddwyr â nam ar y golwg nad oes cwrbyn yn gwahanu'r droedffordd a'r ffordd.

Croesfan Sebra Ddyrchafedig. Dyma lle mae ***croesfan sebra*** yn cynnwys ***bwrdd arafu,*** neu lle mae'r groesfan wrth gyffordd ddyrchafedig, naill ai fel rhan o gyfres ehangach o fesurau arafu traffig neu ar ei phen ei hun.

Parth Diogelwch Ysgol: Fel arfer bydd gan barth diogelwch ysgol "borth" i mewn i'r parth ar ffurf culhad ffordd dwy ffordd ac arwyddion rhybuddion ysgol a bydd yn cynnwys mesurau arafu traffig, croesfannau i gerddwyr a chyfyngiadau a rheolaeth parcio. Y diben yw lleihau cyflymderau traffig yn ardal gatiau'r ysgol, codi ymwybyddiaeth gyrwyr sy'n agosáu at ysgol a chynnig cyfleusterau mwy diogel a chyfleus i gerddwyr (disgyblion ysgol yn benodol) o fewn y parth. Bydd yr union fesurau yn y parth diogelwch ysgol yn dibynnu ar ffactorau amrywiol megis trefn y safle, nifer y mynedfeydd i'r ysgol, swm a chyflymder traffig.

Gorchymyn Rheoli Traffig. Dyma gyfyngiadau a osodir ar y Briffordd sy'n cyfeirio, rheoli a gwahardd symudiadau defnyddwyr y ffordd. Er enghraifft, cyfyngiadau cyflymder 20mya. Dim Mynediad. Dim Troi i'r Dde. Un Ffordd. Dim Aros. Rhaid i'r rheoliadau hyn fod yn destun proses gyfreithiol hir. Os cânt eu cymeradwyo, caiff arwyddion neu linellau eu gosod a gall yr Heddlu neu Swyddogion Gorfodi Sifil eu gorfodi.

Active Travel Scheme
Thornhill Primary School



The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at **ww.cardiff.gov.uk/TransportProjects** using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail **TransportProjects@cardiff.gov.uk** or telephone 029 2087 3354 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by 13/08/2021

Cynllun Teithio Llesol
Thornhill Primary School



Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn **www.caerdydd.gov.uk/transportprojects** ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch **Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk** neu ffoniwch 029 2087 3354 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn 13/8/2021